Crynodeb o hanes perthynas yr UDA a Hawaii

1826 – Yr UDA yn cydnabod Teyrnas Hawaii fel gwlad sofren, annibynol.

1893 – Llynges yr UDA yn meddiannu Hawaii gyda'r esgus fod hyn yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch yr Unol Daleithiau. Gweinidog yr Unol Daleithiau yn codi baner America dros Hawaii gan ddatgan fod Hawaii nawr yn brotectoriaeth o dan yr Unol Daleithiau. Yna fe "ddiosgodd" llywodraeth yr UDA frenhines Hawaii, Liliuokalani, o'i phŵer. (Darllenwch brotest y frenhines ar http://www.kanakamaolipower.org/history.php).

1898 – Yr UDA yn cyfeddiannu Hawaii yn "swyddogol", gan hepgor prosesau ffurfiol megis cytundeb cyfeddiannaeth er i gytundebau o'r fath gael eu cwblhau wrth gyfeddiannu Louisiana, Florida, Texas, a thiriogaethau eraill. Yn unol â chyfraith ryngwladol, heb gytundeb cyfeddiannaeth **nid** yw sofraniaeth y wlad a gyfeddiannwyd wedi ei ildio.

1959 – Trefnodd yr UDA bleidlais i ofyn i bobl Hawaii a oeddynt am ddal eu gafael ar eu statws protectoriaeth neu a oeddynt am ymuno â'r UDA fel talaith. Er mwyn cael canlyniad ffafriol, yn hwylus iawn fe hepgorwyd y trydydd cwestiwn y gorchmynnir ei gynnwys o dan Siartr y Cenhedloedd Unedig sy'n gofyn a yw pobl Hawaii am fod yn annibynnol. Gyda chymorth pleidleisiau ychwanegol gan 10,000 o filwyr Americanaidd a oedd wedi'u lleoli yn Hawaii, fe gafwyd pleidlais fwyafrifol dros ymuno â'r UDA fel yr hanner canfed talaith.

Heddiw – Hawaii yw trefedigaeth brydferthaf yr Ymerodraeth Americanaidd hyd heddiw ac mae'r UDA yn dal i gadw'r rhan honno o boblogaeth Hawaii sy'n ysu am annibyniaeth led braich. Ond am ba hyd?

Yn anffodus mae Americaniaid heddiw yn dal i ddatgan ym mhobman: ***"Ni yw'r genedl orau ar wyneb Daear!",*** a beth mae'n nhw'n dysgu eu plant i adrodd yn y 'Llw Teyrngarwch' (Pledge of Allegiance)? "***... gyda rhyddid a chyfiawnder i bawb!"***

I ddysgu mwy am y symudiad dros annibyniaeth i Hawaii ewch i www.kanakamaolipower.org ***a***

Adeg gwrthryfel mis Ionawr 1893, fe anfonodd y Frenhines Liliuokalani, teyrn cyfansoddiadol teyrnas sofren Hawaii, y llythyr protest hwn at Arlywydd yr UDA, Grover Cleveland, gan fynnu bod yr U.S. Marines a oedd yn cynorthwyo'r cynllwynwyr gyda'r *coup d'etat* yn cael eu tynnu nôl. Mae i ddefnydd y ddogfen hon a deiseb goffa 1897 ganlyniadau pwysig mewn Cyfraith Gyhoeddus Ryngwladol. Maent yn profi nad ildiodd y Frenhines na'i phobl yn ddiamod i'r llywodraeth a'i dilynodd. O ganlyniad, dim ond llywodraeth *de facto* fu pob llywodraeth yn Hawaii ers hynny. Mae Llywodraeth Gyfreithiol Hawaii yn dal ei gafael ar ei statws fel y llywodraeth *de jure* am byth. Dyma lythyr ein Brenhines:

Rydw i, Liliuokalani, Brenhines trwy ras Duw ac yn unol â chyfansoddiad Teyrnas Hawaii, trwy hyn yn datgan fy mhrotest ddifrifol yn erbyn unrhyw a holl weithredoedd a wnaethpwyd yn fy erbyn i ac yn erbyn llywodraeth gyfansoddiadol Teyrnas Hawaii gan bersonau penodol sy'n honni eu bod am sefydlu Llywodraeth Dros Dro ar gyfer y Deyrnas hon.

Yr ydwyf yn ildio i rym rhagorach yr Unol Daleithiau, a'u Gweinidog Llawnalluog, Ei Anrhydedd John L. Stevens, sydd wedi anfon milwyr yr Unol Daleithiau i lanio yn Honolulu ac wedi datgan y byddai'n cefnogi'r Llywodraeth Dros Dro. Rwy'n gwneud hyn yn awr dan brotest i osgoi brwydro rhwng byddinoedd ac efallai golli bywyd. O dan orfodaeth y grym uchod rwy'n ildio fy awdurdod hyd y dydd pan fydd llywodraeth yr Unol Daleithiau, gan edrych ar y ffeithiau sy'n cael eu harddangos iddi, yn dad-wneud gweithredoedd ei chynrychiolwyr ac fy ailosod yn yr awdurdod yr wyf yn ei hawlio fel teyrn cyfansoddiadol Ynysoedd Hawaii.

Gwnaed yn Honolulu ar 17eg dydd o Ionawr, A.D. 1893.